

Croniclo'r Cymalau

Cylchlythyr Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau

2il Adroddiad Blynyddol CGC
Sylw i'r datblygiadau | Dadansoddi a dehongli
Lansio'r System Darllen Codau Bar



National Joint Registry
www.njrcentre.org.uk

Mae'r Cylchlythyr hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Cynnwys

CIP AR NEWYDDION DIWEDDARAF CGC	2
DYDDIADUR ACHLYSURON	2
2IL ADRODDIAD BLYNYDDOL CGC	3
2IL ADRODDIAD BLYNYDDOL - SYLW I'R DATBLYGIADAU	4
2IL ADRODDIAD BLYNYDDOL - DADANSODDI A DEHONGLI	5 & 6
CYFLEUSTER DARLLEN CODAU BAR - YN BAROD I'W DDEFNYDDIO	7
YN ÔL I DREFN	8


Cip ar Newyddion Diweddaraf CGC

2il Adroddiad Blynyddol CGC

Mae rhifyn hwn y cylchlythyr yn canolbwyntio'n bennaf ar rai o ddarganfyddiadau allweddol 2il Adroddiad Blynyddol CGC. Dylai darllenwyr gyfeirio at yr Adroddiad Blynyddol llawn i gael manylion pellach a gwybodaeth ategol. Mae'r adroddiad llawn a'r crynodeb o'r adroddiad ar gael o wefan CGC yn www.njrcentre.org.uk

Cynllun Peilot Llawlyfr Hip Owner's Manual CGC

Mae Canolfan CGC wrth ei bodd â'r diddordeb y mae ysbytai wedi'i ddangos mewn sefydlu cynllun peilot yr *Hip Owner's Manual*. Cytunodd mwy na 30 o ysbytai i gymryd rhan yn y cynllun peilot a dosbarthu'r llawlyfr i'w cleifion dros gyfnod o dri mis. Bydd adroddiadau ar ganlyniadau'r cynllun peilot yn dod i'r fei tua diwedd 2005 a byddant yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Llywio CGC i gael eu cymeradwyaeth i frwr ymlaen â'r fenter hon.



Dyddiadur Achlysuron

Diwrnod Cyflenwyr CGC 2005

19 Hydref 2005, The Oxford Hotel, Rhydychen

Cyhoeddiad nesaf y Cylchlythyr:

Rhagfyr 2005

Os ydych am gyfrannu at y Cylchlythyr yma, cysylltwch â Llinell Gymorth CGC ar **0845 345 9991**, neu anfonwch e-bost at enquiries@njrcentre.org.uk. Rhwch wybod inni beth fydddech chi'n ei gael yn ddefnyddiol, a'r hyn y bydddech am i ni ei gynnwys yn rhifyn nesaf y Cylchlythyr.

Mae'r holl ddogfennau a gwybodaeth am CGC ar gael ar wefan CGC yn www.njrcentre.org.uk

Os nad yw'r we ar gael ichi ei defnyddio, cysylltwch â Llinell Gymorth CGC i dderbyn copi drwy'r e-bost neu'r post.

The NJR Centre

329, Harwell
Didcot
Oxfordshire
OX11 0QJ

Ffôn: **0845 345 9991**

Ffacs: **0845 345 9992**

E-bost: enquiries@njrcentre.org.uk

2il Adroddiad Blynyddol CGC


Mae CGC yn lansio'i 2il Adroddiad Blynyddol i Gymru a Lloegr yng Nghynhadledd Flynyddol y Gymdeithas Orthopaedeg Brydeinig ar 21 Medi 2005.

Mae'r adroddiad yn olrhain cynnydd CGC o adeg ei datblygiad hyd at y presennol, ac yn canolbwyntio'n arbennig ar y data y mae CGC yn eu casglu ar gyfer y triniaethau i osod cymalau newydd yn y glun neu'r ben-glin a ddigwyddodd rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2004, gan gynnwys y dyddiadau hynny, ac a gyflwynwyd i CGC erbyn 28 Chwefror 2005.

Mae'r Adroddiad Blynyddol wedi'i strwythuro yn dair rhan:

- Mae **Rhan 1** yn adrodd ar y gweithgareddau allweddol a ddigwyddodd rhwng 1 Ionawr 2004 a 31 Gorffennaf 2005 na chafodd eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol Cyntaf
- Mae **Rhan 2** yn canolbwyntio ar ddadansoddi data a'u dehongli. Mae'r data sydd ar gael yn cwmpasu 21 mis ac maent wedi caniatáu inni gynnal amrediad ehangach o ddadansoddiadau. Gan ystyried datblygiadau mewn technolegau a thechnegau, bydd dadansoddiadau yn edrych ar ba mor aml y bydd angen, er enghraifft, gosod wyneb newydd ar y glun a defnyddio'r llawdriniaeth leiaf mewnwithiol. Er bod yn rhaid ystyried y darganfyddiadau cynnar yn rhai rhagarweiniol, gallai eu goblygiadau posibl fod yn ddiddorol
- Mae **Rhan 3** yr adroddiad yn darparu atodiadau i gefnogi testun Rhan 1 a dadansoddiadau Rhan 2

Mae modd lawrlwytho'r adroddiad llawn a'r crynodeb o'r adroddiad o wefan CGC yn www.njrcentre.org.uk



- Sylw i'r datblygiadau

Sylw i'r datblygiadau

Roedd darganfyddiadau cychwynnol yr Adroddiad Blynyddol 1af yn galonogol, ond roedd llawer i'w wneud, ac ymhlith y meysydd a amlygwyd er mwyn rhoi sylw arbennig iddynt oedd y canlynol:

- Gwella lefelau cyflawnrwydd y data, yn enwedig mewn perthynas â darparu rhif GIG pan fydd cleifion wedi rhoi caniatâd ar gyfer trosglwyddo manylion personol i CGC
- Sicrhau bod proses sicrhau caniatâd ar gyfer trosglwyddo manylion personol i CGC wedi'i hymgorffori'n llawn yn yr ysbytai
- Cydweithio'n agos â'r ychydig ysbytai hynny sy'n cael anawsterau wrth gydymffurfio â CGC
- Cydweithio â budd-ddeiliaid i ddatblygu cwmpas gofynion adrodd CGC.

Bu gweithredu dwys yn y meysydd hyn, ac yn ogystal â hyn bu gweithredu ar amrediad ehangach o feysydd megis:

- Datblygiad pellach yr Isafswm Set Data (ISD f2)
- Datblygu a lansio cyfleuster darlennydd codau bar
- Datblygu a lansio cyfleuster swmp-lytho data

- StatsOnline CGC - cyfleuster ar y we i edrych ar ystadegau CGC a'u lawrlwytho.

Datblygiadau budd-ddeiliaid

- Wrth i ddatblygiad CGC gynyddu, mae strwythur grwpiau ymgynghorol ac is-bwyllgorau wedi datblygu i gefnogi gwaith y Pwyllgor Llywio. Sef:
 - Grŵp Ymgynghori CGC ar Berfformiad Gwriadau Anarferol (NOPAG)
 - Is-Bwyllgor Ymchwil CGC (NJR RSC)
 - Grŵp Astudio Mesur y Deiliant y mae Cleifion yn Adrodd Arno (PROMS)
- Yn dilyn arolwg cychwynnol o ofynion adrodd budd-ddeiliaid, datblygwyd strategaeth adrodd i fudd-ddeiliaid. Fe fydd sefydlu proses adrodd budd-ddeiliaid CGC yn galluogi grwpiau budd-ddeiliaid i gael y wybodaeth y mae ei hangen arnynt yn gyflym, yn rhwydd ac ar fformat cyfleus. Yng Nghyfnod 1, mae adroddiadau safonol yn cael eu paratoi ar gyfer rheolwyr ysbytai, Asiantaeth Prynu a Chyflenwi'r GIG (PASA), gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr, a llawfeddygon
- Sefydlwyd y Panel Gwerthuso Data Orthopaedeg (ODEP) gan PASA GIG i ddarparu asesiad annibynnol o ddeilliannau clinigol y data y mae gweithgynhyrchwyr

impiadau yn eu cyflwyno, ynghylch cydymffurfriad brandiau o gymalau cyfan y glun a phrotheseses i osod wyneb newydd ar y glun â meincnodau NICE ar gyfer effeithiolrwydd gwahanol frandiau o brotheseses cluniau. Bu mewnbwn CGC i broses ODEP o werth mawr. Ym 2005, cynhaliwyd ymarfer i gymharu cofnodion CGC â chynhyrchion a gyflwynwyd i'w gwerthuso gan ODEP. Y canlyniad oedd bod nifer sylweddol o gynhyrchion wedi'u nodi fel rhai oedd wedi'u himpio, ond nid oeddent wedi'u cyflwyno i ODEP. Mae'r mewnbwn hwn gan CGC wedi caniatáu inni adeiladu ar waith ODEP i ddarparu golwg gynhwysfawr o'r cluniau sydd ar gael ar y farchnad yn y DU, a'u cydymffurfriad â'r meincnodau a osodir gan NICE

- Cynhaliwyd astudiaeth interim PROMS yn ystod hanner cyntaf 2005. Cyflawnwyd cyfradd ymateb gyffredinol o 88%, sy'n galonogol iawn. Fe fodlonodd ddau brif nod:
 - edrych ar sut yr oedd cleifion yn ystyried deiliant eu cymalau newydd o leiaf un flwyddyn ar ôl y llawdriniaeth
 - darparu prawf cychwynnol o'r logisteg ar gyfer cynnal arolwg trwy'r post o ddeilliannau yr oedd cleifion yn adrodd arnynt yn achos y cleifion yr oedd eu llawdriniaethau wedi'u cofnodi ar gronfa ddata CGC.

- Dadansoddi a Dehongli

Mae'r tabl yn crynhoi'r data a ddefnyddiwyd yn y rhan fwyaf o'r dadansoddiadau yn Rhan 2 yr adroddiad, h.y. data yn ymwneud â thriniaethau i osod cymalau newydd a gynhaliwyd yng Nghymru a Lloegr o 1 Ionawr i 31 Rhagfyr 2004 gan gynnwys y dyddiadau hynny, a'u cofnodi yng nghronfa ddata CGC erbyn 28 Chwefror 2005.

Darganfyddiadau allweddol

■ Cofnodwyd 60% o gymalau clun a phen-glin newydd perthnasol y GIG i CGC yn 2004. Cafwyd caniatâd yn achos 65% o'r holl driniaethau a gofnodwyd i drosglwyddo manylion personol y claf (enw cyntaf, cyfenw, dyddiad geni, cod post a rhif GIG). Roedd rhifau GIG ar gael ar gyfer 70% o'r cleifion hynny a roddodd ganiatâd

- Llwyddodd 171 o ysbytai (45% o'r rhai a oedd yn sicrhau caniatâd) i sicrhau cyfradd ganiatâd o o leiaf 80% o driniaethau a gofnodwyd, a chyrrhaeddodd 31 o'r rhain gyfraddau caniatâd o 100%
- Yn 24 o ysbytai, roedd y rhifau GIG ar gael ar gyfer pob claf a roddodd ganiatâd.

Mae casglu manylion personol y cleifion yn elfen bwysig o broses casglu data CGC oherwydd bod y rhain yn caniatáu i CGC:

- Wybod pa gleifion sydd wedi derbyn prosthesis penodol pe darganfyddid yn ddiweddarach bod diffygion arnynt
- Cysylltu triniaeth y claf am y tro cyntaf â'i driniaethau diweddarach, fel bod modd darganfod pa mor hir y mae impiad penodol yn para (Rhif GIG sy'n darparu'r cysylltiad)
- Gwahodd cleifion i fod yn rhan o unrhyw broses adborth ddilynol wrth asesu a chofnodi bodlonrwydd y claf.

	Cluniau	Pengliniau	Cyfanswm
	Nifer (%)	Nifer (%)	Nifer (%)
Gwlad			
Lloegr	47,427 (96.8)	43,603 (97.1)	91,030 (97.0)
Cymru	1,560 (3.2)	1,295 (2.9)	2,855 (3.0)
Math o driniaeth			
Am y tro cyntaf	44,262 (90.4)	42,791 (95.3)	87,053 (92.7)
Llawdriniaeth Adolygol	4,516 (9.2)	1,966 (4.4)	6,482 (6.9)
Llawdriniaethau o'r newydd yn hytrach nag adolygiadau	209 (0.4)	141 (0.3)	350 (0.4)
Math o ddarparwr triniaeth			
Ysbyty GIG	30,990 (63.2)	29,592 (65.9)	60,582 (64.5)
Ysbyty annibynnol	16,203 (33.1)	13,333 (29.7)	29,536 (31.5)
Canolfan driniaeth GIG	1,118 (2.3)	1,186 (2.6)	2,304 (2.5)
Canolfan driniaeth annibynnol	676 (1.4)	787 (1.8)	1,463 (1.5)
Cyfanswm	48,987	44,898	93,885

Gosod cymal newydd y glun am y tro cyntaf

- 68 oed yw oedran cymedrig y cleifion
- Yn gyffredinol, roedd mwy o'r cleifion a roddodd ganiatâd yn ferched nag yn ddynion (59%)
- Osteoarthritis oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros gael y llawdriniaeth, ac roedd y cyflwr i'w weld mewn 94% o gleifion
- Defnyddiwyd sment yn y rhan fwyaf o driniaethau (roedd 77% wedi defnyddio sment morddwydol a 56% wedi defnyddio sment asetabwlaidd)
- Defnyddiwyd y llawdriniaeth lleiaf mewnwithiol yn 6.5% o'r holl driniaethau
- Perfformiwyd 8% o'r triniaethau a gofnodwyd ar gleifion 'ifanc' (dan 55 mlwydd oed)
- Cofnodwyd 88 o wahanol frandiau o gwpanau asetabwlaidd a 101 o wahanol frandiau o stemiau morddwydol. Cofnodwyd 574 cyfuniad o ran brand y cwpan a brand y stem. Roedd 9,718 o'r triniaethau (25%) yn defnyddio cyfuniad cyfun-cydwedd o gwpanau a stemiau.

Gosod cymal pen-glin newydd am y tro cyntaf

- 70 oed yw oedran cymedrig y cleifion
- Yn gyffredinol, roedd mwy o'r cleifion a roddodd ganiatâd yn ferched nag yn ddynion (56%)
- Osteoarthritis oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros gael y llawdriniaeth, ac roedd y cyflwr i'w weld mewn 96% o gleifion
- Defnyddiwyd y llawdriniaeth lleiaf mewnwithiol yn 6.1% o'r triniaethau
- Gwyddys i 3.7% o'r triniaethau a gofnodwyd gael eu perfformio ar gleifion 'ifanc' (dan 55 mlwydd oed)
- Cofnodwyd 33 o wahanol frandiau o brostheses pen-glin condylaidd. Yn ogystal â hyn, cofnodwyd deg brand o brosthesis un-gondyl, tri brand o brosthesis padellol-forddwydol newydd a saith brand o brosthesis colfachog.

Llawdriniaethau adolygol

- 69 oedd oedran cymedrig y cleifion a gafodd llawdriniaeth adolygol ar y glun. Yn gyffredinol, roedd mwy o'r cleifion a roddodd ganiatâd yn ferched nag yn ddynion (57%). Llacio aseptic oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros y llawdriniaeth,

ac roedd hyn i'w weld mewn 79% o'r cleifion a gafodd driniaeth adolygol i'w cluniau

- 70 oedd oedran cymedrig y cleifion a gafodd lawdriniaeth adolygol ar y ben-glin. Yn gyffredinol, roedd mwy o'r cleifion a roddodd ganiatâd yn ferched nag yn ddynion (52%). Llacio aseptig oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros y llawdriniaeth, ac roedd hyn i'w weld mewn 59% o'r cleifion a gafodd driniaeth adolygol i'w pengliniau
- Yn y cyfnod cynnar hwn o CGC, roedd 122 o driniaethau adolygol neu rai o'r newydd ar y glun a berfformiwyd rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Rhagfyr 2004 wedi'u cysylltu â thriniaeth am y tro cyntaf oedd wedi'i chofnodi yn y gronfa ddata. Roedd 54 o driniaethau adolygol neu rai o'r newydd ar y ben-glin a berfformiwyd yn ystod y cyfnod hwn wedi'u cysylltu â thriniaethau am y tro cyntaf.

Marwolaethau cleifion a gafodd gymalau clun a phen-glin newydd

- Roedd gan 31,060 o'r cleifion a gafodd gymal newydd y glun am y tro cyntaf rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Rhagfyr 2004 rifau GIG. Olrheiniwyd dyddiad marwolaeth 533 (1.7%) o'r cleifion hyn trwy'r Gwasanaeth Orlhain Strategol Cenedlaethol (NSTS) fis Mawrth 2005
- Roedd dyddiad marwolaeth 203 o'r 31,060 o gleifion a gafodd gymal newydd y glun am y tro cyntaf o fewn tri mis i'r llawdriniaeth. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd marwolaeth tri mis o 0.64%. Roedd gan ddynion gyfradd marwolaeth tri mis uwch na merched (0.69% o'i gymharu â 0.60%). Roedd y gyfradd marwolaeth tri mis yn cynyddu yn ôl yr oed, fel y gellid disgwyl
- Roedd gan 29,857 o'r cleifion a gafodd gymal newydd y ben-glin am y tro cyntaf rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Rhagfyr 2004 rifau GIG. Olrheiniwyd dyddiad marwolaeth 474 (1.6%) o'r cleifion hyn trwy'r Gwasanaeth Orlhain Strategol Cenedlaethol (NSTS) fis Mawrth 2005

- Roedd dyddiad marwolaeth 153 o'r 29,857 o gleifion a gafodd gymal newydd y ben-glin am y tro cyntaf o fewn tri mis i'r llawdriniaeth. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd marwolaeth tri mis o 0.49%. Roedd y gyfradd marwolaeth tri mis ymhlith y dynion a gafodd gymal newydd y ben-glin am y tro cyntaf yn uwch na'r gyfradd ymhlith y merched
- Roedd y gyfradd marwolaeth tri mis yn cynyddu yn ôl yr oed fel y gellid disgwyl.

Deilliannau y mae'r cleifion yn arodd arnynt - astudiaeth interim

Cluniau

- O 10,000 o holiaduron arolwg a anfonwyd at gleifion, gellid cysylltu 9,942 â data yng nghronfa ddata CGC. O'r rhain, gellid ystyried holiaduron a anfonwyd at 8,922 o gleifion a oedd wedi cael triniaeth unochrog am y tro cyntaf
- Fe ddychwelodd 7,838 (88%) o gleifion cymwys eu holiaduron arolwg
- Mae'r 91% o holiaduron a ddychwelwyd y gellid cyfrifo'r Sgôr Cluniau Rhydychen ohonynt yn awgrymu mai oddeutu 30% o gleifion sydd ddim yn dioddef unrhyw broblemau, neu'n dioddef brin ddim problemau, mewn cysylltiad â'u cymal clun newydd. Fodd bynnag, roedd gan 6.1% o gleifion Sgôr Cluniau Rhydychen a oedd yn awgrymu bod ganddynt broblemau cymedrol i ddifrifol
- O'r 7,705 o gleifion a atebodd y cwestiwn, roedd 90% yn fodlon â'u cymal clun newydd a 3.5% heb fod yn fodlon.

Pengliniau

- O 10,000 o holiaduron arolwg a anfonwyd at gleifion, gellid cysylltu 9,935 â data yng nghronfa ddata CGC. O'r rhain, gellid ystyried holiaduron a anfonwyd at 9,417 o gleifion a oedd wedi cael triniaeth unochrog i'r ben-glin am y tro cyntaf

- Fe ddychwelodd 8,231 (87%) o gleifion cymwys eu holiaduron arolwg
- Mae'r 88% o holiaduron a ddychwelwyd y gellid cyfrifo'r Sgôr Pengliniau Rhydychen ohonynt yn awgrymu mai ychydig yn llai na 10% o gleifion sydd ddim yn dioddef unrhyw broblemau, neu'n dioddef brin ddim problemau, mewn cysylltiad â'u cymal pen-glin newydd. Fodd bynnag, roedd gan 11% o gleifion Sgôr Pengliniau Rhydychen a oedd yn awgrymu bod ganddynt broblemau cymedrol i ddifrifol
- O'r 8,095 o gleifion a atebodd y cwestiwn, roedd 82% yn fodlon â'u cymal pen-glin newydd a 7% heb fod yn fodlon.

“Gan ddiweddarau'r ystadegau cymaint â phosibl, ar 24 Mehefin 2005, fe gofnodwyd y 200,000^{fed} cofnod i system CGC ac erbyn diwedd Gorffennaf roedd cyfanswm o 212,107 o gofnodion wedi'u mewnbynnu: ffigyrau tra boddhaol. 72.9% oedd y gyfradd ganiatâd am y mis hwnnw, ac roedd 98.8% o'r holl ysbytai ar gronfa ddata CGC wedi cyflwyno data erbyn diwedd Gorffennaf 2005.

Fodd bynnag, mae llawer eto i'w wneud os ydym am i'r data rydym wedi eu casglu gyflawn eu llawn potensial wrth wella gofal orthopaedig. Yn anad dim, mae angen inni gynyddu caniatâd cleifion a chasglu rhifau GIG y cleifion sydd wedi rhoi eu caniatâd. Rhaid i hyn fod yn brif amcan i ni ar gyfer 2005, ac rydym wrthi'n ystyried nifer o fesurau i'n galluogi i wneud hyn ar frys.”

Bill Darling Cadeirydd, Pwyllgor Llywio CGC

Cyfleuster darllen codau bar - yn barod i'w ddefnyddio

Fel rhan o wella parhaus System Mewnbynnu Data CGC, datblygwyd cyfleuster darllen codau bar. Fe fydd sganio codau bar y cyflenwyr ar becynnau'r cydrannau yn mewnbynnu manylion impiadau ar CGC yn awtomatig. Fe fydd y cyfleuster darllen codau bar hwn yn helpu i gyflymu mewnbynnu data a gwella ansawdd cyffredinol y data yn gyffredinol.

Lansiwyd y cyfleuster darllen codau bar yn llawn fis Awst, ac mae llawer o ysbytai'n ei ddefnyddio bellach yn fater o drefn i gofnodi manylion cydrannau impiadau.

Sut i wneud cais am sganiwr

Fel rhan o'r datblygiad diweddar hwn, mae CGC yn darparu sganiwr codau bar i bob ysbyty sy'n cyfrannu at CGC. Er mwyn derbyn sganiwr codau bar, dylai Rheolwyr Data Ysbytai CGC wneud cais i Ganolfan CGC. Gellir gwneud cais trwy lenwi'r ffurflen gais ar-lein yn www.njrcentre.org.uk, neu drwy gysylltu â Llinell Gymorth CGC ar **0845 345 9991**.

Bydd y ceisiadau cychwynnol ar gyfer un sganiwr codau bar yn unig i bob ysbyty. Gan ddiwynnu ar y galw yn gyffredinol, fe fyddwn yn ystyried ceisiadau am sganwyr codau bar ychwanegol. Dylai'r sganwyr gyrraedd cyn pen pythefnos o anfon y cais.

Arsefydlu eich sganiwr

Darperir canllaw ar ddefnyddio'r cyfleuster darllen codau bar CGC gyda phob sganiwr ac mae'n cynnwys cyfarwyddiadau arsefydlu llawn; mae'r ganllaw defnyddiwr hon hefyd ar gael o wefan CGC. Er bod yr arsefydlu yn gymharol syml, mae'n bosibl y byddwch am fanteisio ar gyngor eich adran TG. Gellir rhoi cymorth pellach i arsefydlu'r rhaglen dros y ffôn trwy gysylltu â Llinell Gymorth CGC ar **0845 345 9991**.

Newidiadau i'r System Mewnbynnu Data

Mae sgrîn *Find components* ar System Mewnbynnu Data CGC wedi'i diweddarau i gynnwys blwch *Scan barcode*, gweler Ffigwr 1. Dyma lle y bydd data'r codau bar yn cael eu cofnodi unwaith y byddant wedi'u sganio.

Fe fydd y sgrîn *Find components* nawr yn dychwelyd bob tro at y ddewislen *Scan barcode*, gan ddisgwyl y bydd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr am sganio manylion y cydrannau. Fodd bynnag, gellir mewnbynnu manylion y cydrannau â llaw pan fydd angen gwneud hynny, trwy ddewis yr adran briodol, e.e. *Search by REF number* neu *Locate by Supplier*.

Unwaith y bydd y wybodaeth o'r cod bar wedi'i chofnodi, fe fydd y system yn gwirio'r data gan eu cymharu â'r hyn a geir yn rhestr y cydrannau ar gronfa ddata CGC. Os nad yw'r system yn adnabod data'r gydran, fe fydd y system yn cyfeirio'r defnyddiwr yn awtomatig i adran *Search by REF number*.

Adnabod cod bar

Fe fydd System Mewnbynnu Data CGC yn adnabod y rhan fwyaf o godau bar y prif gyflenwyr cydrannau, gan gynnwys:

- B Braun/Aesculap
- Biomet
- DePuy
- Intavent - Orthofix
- Joint Replacement Instrumentation (JRI)
- Schering-Plough
- Smith & Nephew
- Stryker Howmedica Osteonics
- Summit Medical



Figwr 1 - Sgrîn *Find components*

a rhai gan:

- Corin
- Zimmer.

Mae Canolfan CGC yn cydweithio'n agos â phob cyflenwr yn y DU i ymgorffori cymaint â phosibl o gydrannau.

Ceir ambell weithgynhyrchwr nad yw'n defnyddio codau bar o gwbl; lle digwydd hyn, fe fydd angen mewnbynnu manylion y gydran â llaw.

“Croesawn ddatblygiad system darllen codau bar Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau gan ei bod yn rhwydd ei defnyddio ac yn arbed amser wrth gofnodi data.

Roeddwn yn falch o gael gwahoddiad i fod yn rhan o gynllun peilot y system. Bu'r gefnogaeth a'r wybodaeth a roddwyd i mi gan Dîm CGC yn rhagorol bob amser.”

Paul Allen, Ysbyty Royal Berkshire

Yn ôl i drefn

Wedi ymweld â'i meddyg am dair blynedd gyda phoenau yn ei chlun dde, anfonwyd Wendy Metcalfe i ysbyty orthopaedig am yr hyn a gredai fyddai'n chwistrelliad i helpu â gwingiad y cyhyrau yr oedd y meddyg yn credu iddi ddioddef o ganlyniad i hen anaf ar ei phen-glin chwith. Roedd Wendy yn ddynes fywiog ac yn aelod o Sefydliad y Merched. Byddai'n mwynhau ymweld â'r gampfa ond bu'n rhaid iddi roi'r gorau i ddawnsio oherwydd ei fod yn rhy boenus.

Trefnodd Wendy i ffrind iddi ei gollwng ger yr ysbyty, gan ddweud wrthi y byddai'n barod o fewn dwy awr. Wedi iddi gael ei phelydr-X, aeth Wendy i aros i gael gweld y meddyg roedd yn meddwl fyddai'n rhoi'r chwistrelliad yn ei chlun. Galwodd y meddyg hi ato a dywedwyd wrthi y byddai angen cymal newydd yn ei chlun. Roedd hyn yn gwbl annisgwyl, a chan ei bod ar ei phen ei hun, roedd yn eithaf ergyd i Wendy ymdopi ag ef. Er iddi ofidio, roedd yn rhaid i Wendy eistedd ac aros am fwy o brofion ac am ganlyniadau'r profion hynny.

Galwodd y meddyg ymgynghorol Wendy i mewn i'w ystafell, ac esboniodd fod y cartilag yn ei chlun wedi treulio, ac mai dyma a oedd yn achosi cymaint o boen iddi. Dywedwyd wrthi y byddai angen iddi gael ei henw ar y rhestr aros am oddeutu naw mis, ac yna byddai'n cael cymal clun newydd, ac yn aros yn yr ysbyty am oddeutu wythnos.

"Roeddwn i wedi dychryn am fy mywyd â'r syniad o gael llawdriniaeth, yn enwedig pan ddywedwyd wrthyf y bydden nhw'n gwneud hyn gan

ddefnyddio epidwral." Gan fod ganddi ofn yr hyn nad oedd yn gwybod fawr amdano, ceisiodd Wendy anghofio am y driniaeth yr oedd yn aros amdani.

Trwy ei chyfeillion, llwyddodd Wendy i gysylltu â chleifion eraill a oedd wedi cael triniaeth o'r fath. Cyfarfu ag un, a esboniodd beth yr oedd ef wedi ei ddioddef, ac fe roddodd gyngor i Wendy ar ba gymhorthion cartref fyddai mwyaf defnyddiol iddi. Er ei bod yn gymorth gallu siarad â rhywun, roedd Wendy yn dal yn nerfus iawn am y llawdriniaeth, ac nid oedd yn sicr sut y byddai'n gallu ymdopi adref ar ei phen ei hun. Felly fe aeth ati i gynllunio sut i wneud bywyd yn haws iddi hi ei hun. Gofynnodd Wendy i ffrind a allai aros gyda hi fin nos, a threfnodd i gael mwy o allweddwr drws ffyrnt ar gyfer ffrindiau eraill fel na fyddai'n rhaid iddi ymdrechu i gyrraedd y drws bob tro y byddai rhywun yn dod i'w gweld. Hefyd, fe archebodd Wendy 'socks on' a chodwyr sedd, a threfnodd i gael canllaw ychwanegol ar ochr y grisiau cyn ei llawdriniaeth.

Roedd Wendy yn ffodus o fod yn rhan o gynllun rhestr aros y G-Supp*, felly nid oedd yn rhaid iddi aros am y naw mis cyfan cyn cael ei llawdriniaeth.

Ar ddiwrnod ei hasesiad yn yr ysbyty, fe gyfarfu â'r athro, y nyrsys a'r anesthetidd a dywedodd eu bod oll "Yn gymwynasgar tu hwnt, fe wnaeth pob un ohonyn nhw esbonio beth fyddai'n digwydd yn ystod y llawdriniaeth, a dangos i mi sut beth oedd yr impiad metel y byddwn i'n ei gael". Teimlai Wendy ei bod wedi derbyn digon o wybodaeth cyn-llawdriniaeth, ond esboniodd ei bod yn dal i fod yn ofnus dros ben.

Ar ôl ei llawdriniaeth, fe dreuliodd Wendy gyfanswm o bedwar diwrnod yn yr ysbyty. Derbyniwyd hi ar y dydd Gwener, ac aeth i lawr am ei llawdriniaeth bnawn dydd Gwener. Ar y bore dydd Mawrth, dywedwyd wrthi y byddai'n mynd adref y diwrnod hwnnw. Roedd hyn yn syndod mawr, a doedd hi ddim yn teimlo'n barod mewn gwirionedd. Dim ond newydd rhoi cynnig ar y grisiau oedd hi, ac ni ddangoswyd iddi sut i wneud ei hymarferion, ond rhoddwyd llyfryn iddi yn esbonio beth i'w wneud. Ac nid oedd unrhyw un ar gael i helpu Wendy i baratoi ar gyfer gadael.

Gartref, cafodd Wendy bethau'n eithaf anodd, gan ei bod mewn llawer o boen am y pythefnos cyntaf. Hefyd, roedd angen iddi ymweld â'r nyrs dair gwaith yr wythnos am sawl wythnos ar ôl y llawdriniaeth i drin wiser a oedd wedi datblygu ar ei sawdl arall.

Sawl mis yn nes ymlaen, mae Wendy'n parhau i fynd i'r gampfa. Mae hi'n mwynhau hyn yn fawr ac yn mynd yno ddwywaith yr wythnos. Esboniodd ei bod yn dal yn rhy nerfus i wneud ymarferion llawr ond cred y bydd ei hyder yn cynyddu gydag amser.

Roedd yn ddiolchgar i allu siarad â phobl am eu profiadau a chael cyngor ar ba gymhorthion cartref i'w defnyddio. Dywedodd fod y cymhorthion cartref 'socks on' yn wych, ond ei bod yn cael anhawster diosg ei sanau wedyn. Felly os oes unrhyw un am gynhyrchu dyfais 'socks off', Wendy fydd y cyntaf i fanteisio arni.

*G-Supp - defnydd cynlluniedig o wasanaethau ysbyty'r sector annibynnol i leihau rhestrau aros y GIG.